Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Cyllid

National Assembly for Wales
Finance Committee

Russell George AC

Cadeirydd Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau

16 Mai 2019

Annwyl Russell,

Taliadau cadw mewn contractau adeiladu

Mae gan y Pwyllgor Cyllid ddiddordeb mewn gwneud darn o waith ar daliadau cadw mewn contractau adeiladu, a thrafodwyd y mater yn ein cyfarfod ar 9 Mai 2019.

Mae ein pryderon yn seiliedig ar yr oedi o ran talu arian cadw i gontractwyr a'r effaith y mae hyn yn ei chael ar y gadwyn gyflenwi, yn arbennig yr effaith ar isgontractwyr llai sydd wedi cwblhau eu gwaith yn foddhaol heb ddiffygion, ond sy'n aml yn gorfod aros cryn amser i gael eu taliad cadw am amrywiol resymau.

Cynhaliodd Llywodraeth y DU ymgynghoriad yn ddiweddar ar **Daliadau cadw yn y diwydiant adeiladu** a daeth i ben ym mis Ionawr 2018 ac mae'r ymatebion yn cael eu dadansoddi.

O ystyried bod y gwaith hwn yn torri ar draws cylch gwaith pwyllgorau'r ddau ohonom, byddai gan y Pwyllgor Cyllid ddiddordeb mewn gwneud darn o waith ar y cyd â Phwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau (ESS) ar y mater hwn. Byddwn yn ddiolchgar pe byddai'r Pwyllgor ESS yn ystyried y cais hwn ac os yw'n cytuno, bydd Bethan Davies, Clerc y Pwyllgor Cyllid, yn trefnu inni gyfarfod i drafod y materion ymarferol.

Yn gywir,

Llyr Gruffydd AC,

Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1NA
SeneddCyllid@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru/SeneddCyllid
0300 200 6565

National Assembly for Wales
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1NA
SeneddFinance@assembly.wales
www.assembly.wales/SeneddFinance
0300 200 6565